Mark James LLM, DPA, DCA
Prif Weithredwr,
*Chief Executive,*
Neuadd y Sir, Caerfyrddin. SA31 1JP
*County Hall, Carmarthen. SA31 1JP*

**DYDD IAU, 7 MEHEFIN 2018**

**AT: HOLL AELODAU'R CYNGOR SIR**

YR WYF DRWY HYN YN EICH GALW I FYNYCHU CYFARFOD O'R **CYNGOR SIR** A GYNHELIR YN **SIAMBR, NEUADD Y SIR, CAERFYRDDIN** AM **10.00 AM, DYDD MERCHER, 13EG MEHEFIN, 2018** ER MWYN CYFLAWNI'R MATERION A AMLINELLIR AR YR AGENDA SYDD YNGHLWM

*Mark James* DYB

**PRIF WEITHREDWR**

AILGYLCHWCH OS GWELWCH YN DDA

| | |
|---|---|
| **Swyddog Democrataidd:** | **Kevin Thomas** |
| **Ffôn (llinell uniongyrchol):** | **01267 224027** |
| **E-bost:** | **kjthomas@sirgar.gov.uk** |
| **Cyf:** | **AD016-001** |

# A G E N D A

**1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB**

**2. DATGANIADAU O FUDDIANNAU PERSONOL.**

**3. CYHOEDDIADAU'R CADEIRYDD.**

**4. LLOFNODI YN GOFNODION CYWIR COFNODION CYFARFODYDD Y CYNGOR A GYNHALIWYD AR Y DYDDIADAU CANLYNOL:**

| | | |
|---|---|---|
| **4 .1** | **18FED EBRILL, 2018** | 7 - 14 |
| **4 .2** | **16EG MAI, 2018** | 15 - 22 |

**5. CWESTIYNAU GAN Y CYHOEDD (NID OEDD DIM WEDI DOD I LAW).**

**6. CWESTIYNAU GAN AELODAU:-**

**6 .1 CWESTIWN GAN Y CYNGHORYDD ROB EVANS I'R CYNGHORYDD GLYNOG DAVIES - AELOD Y BWRDD GWEITHREDOL DROS ADDYSG A PHLANT**

Hoffwn ddechrau drwy ganmol ansawdd uchel y staff addysgu a'r Corff Llywodraethu yn Ysgol Dafen. Rwy'n falch o gael siarad ar eu rhan nhw ac, yn bwysicach, ar ran y plant.

Ymwelais ag Ysgol Dafen yn ddiweddar a gwelais fod nifer o broblemau a phryderon yn ymwneud â'r adeilad Meithrin.

Mae'r adeilad ei hun yn cynnwys asbestos ac mae 30 o blant yn cael eu dysgu yno bob dydd. Nid oes digon o le na chypyrddau yn yr adeilad. Nid oes dim toiled i'r staff felly ni all y staff adael y plant i fynd i'r toiled ac mae'r toiled agosaf ym mhen arall yr ysgol. Hefyd mae'r hyn a elwir yn gegin yn gyfyng iawn, ac mae'r drysau'n hongian oddi ar y bachau. Pan gaiff y rheiddiaduron eu defnyddio mewn tywydd oer mae'r ffenestri yn torri yn rheolaidd. Y tu allan i'r adeilad mae dŵr yn crynhoi yn yr iard oherwydd yr hen ddraeniau.

Nid yw'r adeilad Meithrin yn addas i'r diben.

O gofio'r angen am ragor o leoedd mewn ysgolion yn Llanelli, oni fyddai'n gwneud mwy o synnwyr i ddymchwel yr adeilad hwn ac adeiladu cyfleuster pwrpasol yn ei le neu ddarparu adeiladau dros dro ar gyfer holl ddisgyblion y Cyfnod Sylfaen? Yn realistig, dylai Ysgol Dafen gael adeilad newydd er mwyn i'r plant bach gael cyfleusterau sy'n addas i'r 21ain ganrif ac nid yr hen adeilad hwn a godwyd yn yr 1970au.

Oherwydd cynnydd yn nifer y disgyblion, erbyn hyn mae mwy o blant yn yr ysgol na chapasiti'r Awdurdod Lleol. Yn y prif adeilad, er cryn

fraw i mi, dysgir y plant ar lwyfan yr ysgol ac mewn dwy ystafell gotiau. Mae'r llyfrgell bellach yn neuadd yr ysgol. Er gwaethaf ymdrechion y staff i geisio gwneud y mannau hyn yn ddeniadol, nid yw hyn yn hwyluso dysgu effeithiol.

Mae to'r ysgol a'r peipiau glaw haearn bwrw a'r wynebfyrddau yn dyddio o gyfnod cyn y rhyfel, sef o'r adeilad gwreiddiol a godwyd yn 1938, ac mae gwir angen eu hadnewyddu. Mae Man Dysgu ac Addysgu y tu allan a ddefnyddir bob dydd ac oherwydd nad yw'r peipiau glaw o'r to yn cysylltu â'r draeniau, os ydych yn ddigon anffodus i fod yn rhy agos atynt cewch gawod oer yn yr awyr agored. Hefyd mae rhannau o'r lle chwarae sy'n beryglon baglu o hyd ac mae angen eu hatgyweirio.

Mae dwy ystafell ddosbarth sy'n wynebu'r ardal allanol hon ac yn 2016 dywedodd pensaer oedd yn ymweld â'r ysgol y byddai'n hawdd gosod drysau patio yn y waliau presennol ond mae hyn wedi syrthio ar glustiau byddar. Nododd Estyn a dim llai na 4 ymgynghorydd ERW fod y mynediad hwn at y man dysgu y tu allan yn broblem.

Yn Adroddiad Blynyddol yr Arweinydd eleni mae Cyngor Sir Caerfyrddin wedi dathlu llwyddiannau adeiladu cynifer o adeiladau ysgol newydd gwych.

Nid oes neb yn gofyn am ysgol newydd ar hyn o bryd. Ond pan welaf ddisgyblion y Cyfnod Sylfaen mewn adeilad mor gywilyddus o adfeiliedig rwy'n ei chael yn anodd credu bod y sefyllfa hon yn dderbyniol – ac nid yw'n dderbyniol mewn unrhyw fodd.

Diolch i chi, Glynog, am ymweld â'r ysgol yn ddiweddar, ac arsylwi a thrafod y materion difrifol a gyflwynwyd gan y staff ar y diwrnod hwnnw.

Yn amlwg, nid yw Ysgol Dafen ar eich rhestr ar gyfer addysg cenedlaethau'r dyfodol yn Ysgol Dafen.

Ble mae Ysgol Dafen ar y Rhaglen Moderneiddio Addysg?

## 7. YSTRIED Y RHYBUDDION O GYNNIG CANLYNOL:-

### 7 .1 CYNNIG A GYFLWYNWYD GAN Y CYNGHORYDD COUNCILLOR KEN LLOYD

“Yn unol ag Amcan Llesiant 10 y Cyngor,

**‘Heneiddio’n Dda - Cefnogi'r nifer cynyddol o bobl hŷn er mwyn iddynt gadw'u hurddas a'u hannibyniaeth wrth iddynt heneiddio’**

gofynnwn i’r Cyngor ymchwilio i ymarferoldeb gwneud Sir Gaerfyrddin yn sir sy’n cefnogi pobl â dementia, yn unol â rhaglen Cymdeithas Alzheimer, Cymunedau sy’n Cefnogi Pobl â Dementia. Gan fod poblogaeth y sir yn heneiddio a bod ffocws cynyddol ar ofal a thriniaeth yn y gymuned, yn hytrach nag yn yr ysbyty neu mewn cartref gofal, mae mwy o bobl yn byw â dementia yn ein cymunedau

yn Sir Gaerfyrddin; felly mae angen inni benderfynu beth yw ystyr ‘cefnogi pobl â dementia’ a beth yw’r prif feysydd ar gyfer gweithredu wrth weithio i wireddu Sir Gaerfyrddin sy’n cefnogi pobl â dementia”.

### 7 .2 CYNNIG A GYFLWYNWYD GAN Y CYNGHORYDD GARETH JOHN

“Rydym yn galw ar Lywodraeth Cymru i gydnabod o'r diwedd nad yw Bwrdd Iechyd Hywel Dda yn gallu ymdopi â'r heriau y mae'n eu hwynebu a bod y sefyllfa bellach yn anghynaliadwy. Er y cafwyd rhywfaint o gyllid ychwanegol gan y Llywodraeth, mae gwasanaethau allweddol wedi mynd yn fwyfwy bregus ac mae cwestiynau yn cael eu holi ynghylch diogelwch cleifion.
Byddai gofal cymunedol gwirioneddol integredig yn ffordd effeithiol o leddfu llawer o'r pwysau sydd ar ein hysbytai ond, er bod consensws o blaid y newid hwn, cafwyd symudiad rhwystredig o araf i'r cyfeiriad hwn.

Nid yw strwythurau rheoli ar wahân yn cefnogi dull integredig o'r fath ac, fel y profwyd, ni all awdurdodau iechyd nac awdurdodau lleol gyflawni newid i'r graddau sydd eu hangen ar eu pennau eu hunain.

Er mwyn gwireddu gofal integredig, rhaid cynyddu'r gallu ym meysydd gofal sylfaenol, gofal cymunedol a gofal cymdeithasol yn sylweddol, a rhaid iddynt weithio'n ddi-dor ar draws ffiniau. Byddai timau gofal iechyd sylfaenol ac iechyd y cyhoedd integredig, sy'n cynnwys ystod gynhwysfawr o weithwyr proffesiynol clinigol, anfeddygol a gofal cymdeithasol, mewn sefyllfa lawer gwell i fynd i'r afael â'r heriau yn sgil poblogaeth sy'n heneiddio na natur anghyson y trefniadau sefydliadol presennol.

Felly, rydym yn galw ar Lywodraeth Cymru i sefydlu gwasanaeth iechyd a gofal cymunedol, sy'n gyfrifol am ddarparu model cymdeithasol integredig ar gyfer iechyd a gofal ar draws ardal Hywel Dda, a'i reoli'n gyffredinol. Byddai'r gwasanaeth yn atebol yn ddemocrataidd i'r etholwyr drwy'r tri awdurdod lleol ac i'r bwrdd iechyd a fyddai'n cadw cyfrifoldeb statudol am ei swyddogaethau a'i staff”.

## 8. YSTYRIED ARGYMHELLION Y BWRDD GWEITHREDOL O RAN Y MATERION CANLYNOL:-

| | | |
|---|---|---|
| 8 .1 | Y FERSIWN DRAFFT O'R CANLLAWIAU CYNLLUNIO ATODOL – YNNI GWYNT AC YNNI'R HAUL CYNLLUN DATBLYGU LLEOL SIR GAERFYRDDIN | 23 - 70 |
| 8 .2 | NEWID ENW CYNGOR CYMUNED TRE-LECH AC ENW SAESNEG CYNGOR CYMUNED CWARTER BACH | 71 - 74 |
| 8 .3 | BARGEN DDINESIG BAE ABERTAWE | 75 - 180 |
| 8 .4 | FERSIWN DDRAFFT O STRATEGAETH GORFFORAETHOL NEWYDD 2018-23 | 181 - 228 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | 8 .5 | CARTREFI CROESO CYF GOFYNION ARIANNU, PENODI CYFARWYDDWYR A DIRPRWYO CYTUNDEB CYFRANDDALIWR | 229 - 252 |
| | 8 .6 | Y RHAGLEN MODERNEIDDIO ADDYSG - CYNNIG I GYNYDDU NIFER Y LLEOEDD YN YSGOL GYMUNEDOL GORSLAS O 110 I 210 | 253 - 322 |
| | 8 .7 | Y RHAGLEN MODERNEIDDIO ADDYSG CYNNIG I DDARPARU DARPARIAETH FEITHRIN YN YSGOL PARC Y TYWYN DRWY GYNYDDU YR YSTOD OEDRAN O 4-11 I 3-11 | 323 - 386 |
| | 8 .8 | FERSIWN DIWYGIEDIG O GYNLLUN DATBLYGU LLEOL SIR GAERFYRDDIN 2018 - 2033 CYTUNDEB CYFLAWNI DRAFFT | 387 - 414 |
| 9. | DERBYN ADRODDIADAU CYFARFODYDD Y BWRDD GWEITHREDOL A GYNHALIWYD AR Y DYDDIADAU CANLYNOL:- | | |
| | 9 .1 | 30AIN EBRILL, 2018 | 415 - 418 |
| | 9 .2 | 14EG MAI, 2018 | 419 - 420 |
| 10. | NI DDYLID CYHOEDDI'R ADRODDIAD SY'N YMWNEUD Â'R MATER CANLYNOL GAN EI FOD YN CYNNWYS GWYBODAETH EITHRIEDIG FEL Y'I DIFFINIWYD YM MHARAGRAFF 14 O RAN 4 O ATODLEN 12A I DDEDDF LLYWODRAETH LEOL 1972 FEL Y'I DIWYGIWYD GAN ORCHYMYN LLYWODRAETH LEOL (MYNEDIAD AT WYBODAETH) (AMRYWIO) (CYMRU) 2007. OS BYDD Y BWRDD, AR ÔL CYNNAL PRAWF LLES Y CYHOEDD YN PENDERFYNU YN UNOL Â'R DDEDDF, I YSTYRIED Y MATER HYN YN BREIFAT, GORCHMYNNIR I'R CYHOEDD ADAEL Y CYFARFOD YN YSTOD TRAFODAETH O'R FATH. | | |
| 11. | ENWEBIAD AR GYFER RHYDDID ANRHYDEDDUS SIR GAERFYRDDIN | | 421 - 438 |
| 12. | COFNODION ER GWYBODAETH (AR GAEL AR Y WEFAN) | | |
| | 12 .1 | PWYLLGOR SAFONAU - 16EG MAWRTH, 2018; | |
| | 12 .2 | PWYLLGOR CRAFFU POLISI AC ADNODDAU - 21AIN MAWRTH, 2018; | |
| | 12 .3 | PWYLLGOR ARCHWILIO - 23AIN MAWRTH, 2018; | |
| | 12 .4 | PWYLLGOR CRAFFU CYMUNEDAU - 29AIN MAWRTH, 2018; | |
| | 12 .5 | PWYLLGOR TRWYDDEDU - 4YDD EBRILL, 2018; | |
| | 12 .6 | PWYLLGOR CYNLLUNIO - 5ED EBRILL, 2018; | |
| | 12 .7 | PWYLLGOR CYNLLUNIO - 17EG EBRILL, 2018; | |

**12 .8 PWYLLGOR CRAFFU GOFAL CYNDEITHASOL AC IECHYD - 19EG EBRILL, 2018;**

**12 .9 PWYLLGOR CRAFFU DIOGELU'R CYHOEDD AR AMGYLCHEDD - 20FED EBRILL, 2018;**

**12 .10 PWYLLGOR CRAFFU ADDYSG A PHLANT - 23AIN EBRILL, 2018;**

**12 .11 PWYLLGOR CRAFFU POLIAI AC ADNODDAU - 27AIN EBRILL, 2018.**

DS: Mae adroddiadau yn cael eu hargraffu mewn du a gwyn yn unig er mwyn arbed costau. Fodd bynnag mae pob adroddiad ar gael ar-lein fel y gall aelodau o'r Pwyllgor / Cyngor Sir a'r cyhoedd weld lluniau/graffiau mewn lliw.